

Beth sydd wrth fodd Duw?

“...a bydded iddo lunio ynom yr hyn sydd gymeradwy ganddo, trwy Iesu Grist...”
(adn. 21)

Beth am ddarllen Hebreaid 13:15–21 ac yna myfyrio

Un o’r gwirioneddau sydd angen eu dysgu i Gristnogion newydd yw fod Duw am i ni fyw bywyd o sancteiddrwydd, bywyd sydd wrth ei fodd.

Deuthum yn Gristion yn ystod fy ardegau. Ychydig wythnosau yn diweddarach, rhaid oedd eistedd gyda’m gweinidog, ac un o’r pethau a ddywedodd wrthyf oedd, ‘Pwrpas Duw ar dy gyfer yw i’th wneud yn sanctaidd. Nid cwestiwn o’th wneud yn hapus yn gyntaf ac yna yn sanctaidd os yn bosibl, ond sancteiddrwydd yn gyntaf, a bydd hynny yn arwain at lawenydd.’ Cofiaf deimlo yn anesmwyth, oherwydd golygai sancteiddrwydd, yn fy nhyb i, wisgo dillad tywyll, cludo Beibl du a gwisgo gwep ddiflas ar fy wyneb. Nid oeddwn yn siŵr o ystyr y gair go iawn, ond roedd yn air yr oeddwn yn ei gysylltu â byd gwahanol iawn i fyd bachgen yn ei ardegau.

Bu i mi fynegi fy ngofid i’r gweinidog a’i ymateb ef oedd, ‘Os nad wyt ti’n hoffi’r gair *sanctaidd*, beth am y gair *gwahanol* oherwydd dyna yw person sanctaidd – rhywun sydd yn wahanol, wedi ei osod ar wahân i’r byd.’ Esboniodd fod cael ein gosod ar wahân i’r byd ymhell o olygu byw mewn mynachlog. Nid yw sancteiddrwydd yn cael ei feithrin lle nad oes yna bobl ond yn hytrach agwedd meddwl yw’r awydd am sancteiddrwydd. Mae’n safonau ni yn rhai duwiol yn hytrach na rhai bydol. Mae Duw yn ein galw ni i gymryd ein rhan yn y byd ac eto i fod ar wahân i’r byd. Yr ydym yn cymryd ein lle yn y byd, yn cyfrannu iddo ond nid ydym yn gweithredu yn ôl ei safonau. Yr ydym yn gweithredu yn ôl cyfraith teyrnas Dduw – dyna yw sancteiddrwydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 19:13–14; Ioan 17:14–19; Gal. 6:14

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae rhyngu bodd Duw?
2. Sut mae bod yn y byd ag eto nid o’r byd?

Gweddi

O Dduw, rwy’n gofyn i ti ganiatáu i oleuni’r nef ei hun lifo ar y gwirionedd yma o fewn yr eglwys. Arglwydd, mae’r angen am adfer y pwyslais ar fywyd sanctaidd arna i ac ar dy eglwys. Cynorthwya ni, Dad nefol, yn Iesu. Amen.